www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

www.giantsnorthwales.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Cerddwyr yn croesawu technoleg ffonau symudol

01745 589020
www.tpnw.org

Cerddwyr yn croesawu technoleg ffonau symudol

Mae penaethiaid twristiaeth yn defnyddio technoleg ffonau symudol i ddarparu llyfrau tywys rhithwir i gerddwyr yng Ngogledd Cymru.

Clywodd cynrychiolwyr mewn fforwm arbennig a drefnwyd gan Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru y gallai'r eLwybrau, fel y'u gelwir, helpu i greu llwybr tuag at ffyniant i'r rhanbarth.

Mae'r Bartneriaeth Twristiaeth yn cyfrannu £25,000 i'w hymgyrch Cerdded Gogledd Cymru ac mae disgwyl y bydd yn cynhyrchu deg gwaith yn fwy na hynny o wariant gan ymwelwyr.

Maen nhw'n credu bod potensial aruthrol i'r farchnad. Mae cerdded dair gwaith yn fwy poblogaidd na nofio, ei gystadleuydd agosaf o ran gweithgareddau corfforol, ac mae 44.5 y cant o oedolion yn mwynhau cerdded mwy na dwy filltir yn rheolaidd.

Cynhaliwyd y fforwm yng Nghanolfan Glasdir, Llanrwst, ac un o'r prif siaradwyr oedd Peter Hewlett, o Cerdded Gogledd Cymru.

Meddai Mr Hewlett: "Mae yna lawer iawn yn digwydd yn cynnwys y gwaith sy'n mynd rhagddo ar Lwybr Arfordir Cymru.

"Rydym yn trefnu gwyliau cerdded newydd a chyffrous ac yn croesawu a datblygu'r gamp gymharol newydd o Gerdded Llychlynnaidd, sy'n cynyddu mewn poblogrwydd.

"Ond mae yna lawer o feysydd gweithgarwch eraill yn cynnwys cyflwyno'r eLwybrau newydd sy'n golygu mai'r cyfan sydd ei angen ar gerddwr yw ffôn symudol er mwyn cael gafael ar wybodaeth am dirnodau a nodweddion daearyddol wrth iddo fynd ar hyd llwybr arbennig.

"Rwy'n credu ein bod yn ennill y frwydr ond rhaid i ni ddal i ddefnyddio pob cyfle posib i helpu i gyfleu ein neges nad oes yna unman mor groesawgar, mor hardd nac mor amrywiol â Gogledd Cymru i fwynhau cerdded a heicio."

Meddai Dewi Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, y corff sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol yr economi ymwelwyr yng Ngogledd Cymru: "Mae Peter Hewlett a'i gydweithiwr Simon Logan o Cerdded Gogledd Cymru yn gwneud gwaith gwych a nhw yw hyrwyddwyr pennaf popeth sy'n ymwneud â cherdded ar draws y rhanbarth.

"Rhaid i ni sylweddoli pwysigrwydd cerdded i economi Gogledd Cymru.

"Rhaid i ni ymgysylltu â phob cerddwr, boed yn heiciwr difrifol neu'n deulu sydd ag awydd mynd am dro bach hamddenol ar hyd yr arfordir neu i

Yn y darlun o'r chwith mae Peter Hewlett, Cerdded Gogledd Cymru, John Ablitt , Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Simon Logan, Cerdded Gogledd Cymru a Dewi Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol PTGC.

fyny bryn neu fynydd.

"Mae gan Ogledd Cymru gymaint i'w gynnig i gerddwyr ac mae'n bwysig ein bod yn dal eu sylw ac yn darparu cynllun busnes cynaliadwy i ddatblygu cerdded fel gweithgaredd hamdden i'r dyfodol."

Aeth Peter Hewlett yn ei flaen i amlinellu cynlluniau'r gwyliau cerdded sydd i'w cynnal yng Ngogledd Cymru eleni.

Meddai: "Mae yna lu o weithgareddau a gwyliau cerdded yn digwydd ar draws Gogledd Cymru, y rhan fwyaf ohonyn nhw dan arweiniad tywyswyr proffesiynol, gwybodus a fydd yn helpu ymwelwyr i gael y gorau o'r profiad.

"Bydd rhai digwyddiadau, fel Gŵyl Gerdded Môn a gynhelir ym Mehefin, yn rhoi cyfle i dreulio nosweithiau yng nghwmni haneswyr lleol, a chyfle i fwyta cynnyrch Cymreig lleol. Bydd lluniaeth ar gael yn y rhan fwyaf o lefydd a bydd rhai hefyd yn cynnwys ymweliadau â busnesau lleol."

Ychwanegodd: "Mae harddwch godidog Eryri a golygfeydd trawiadol Betws-y-coed, gyda'i goedwigoedd emrallt a'r afon yn llifo'n gyflym drwyddo, yn sylfaen naturiol ar gyfer cerdded ond gallwch fwynhau cerdded ym mhob cwr o Ogledd Cymru, ac mae gan bobman rywbeth gwahanol i'w gynnig."

Clywodd y fforwm hefyd gan Quentin Grimley o Gyngor Cefn Gwlad Cymru a roddodd wybod i'r cynrychiolwyr am y cynnydd wrth adeiladu Llwybr Arfordir Cymru.

Meddai: "Yn 2006 penderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod am weld Llwybr Arfordir Cymru yn rhoi mynediad i bob modfedd o'r arfordir o amgylch Cymru, os oedd hynny'n bosib.

Bydd y llwybr yna'n barod erbyn 2012. Ond er bod rhai rhannau o'r llwybr eisoes yn bodoli o gwmpas Cymru, bydd y rhan gyntaf cwbl newydd, rhwng Gronant a Llandudno, yn agor i'r cyhoedd ar 1 Gorffennaf eleni.

"Bydd hyn yn rhoi hwb go iawn i Ogledd Cymru ac rwy'n siŵr y bydd yn denu llawer o gerddwyr newydd i'r rhanbarth, sy'n awyddus i gerdded y cyfan neu rywfaint o'r 26-milltir newydd."

Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01758 760532 neu ewch i www.walkingnorthwales.co.uk neu www.tpnw.org



www.tpnw.org